



Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru

Deddf Safonau Gofal 2000

Adroddiad Arolygu

This report is also available in English / Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg

Castell Care and Support

Glannau Dyfrdwy

**Math o arolygiad – Llawn
Dyddiad yr arolygiad – 16 Tachwedd 2017
Dyddiad cyhoeddi – 1 Ionawr 2018**

Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2017.

Cewch ddefnyddio ac aildefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau Trwydded Agored y Llywodraeth. Gallwch weld Trwydded Agored y Llywodraeth ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at:psi@nationalarchives.gsi.gov.uk

Rhaid i chi atgynhychu ein deunydd yn fanwl gywir, a phaidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.

Crynodeb

Ynglŷn â'r gwasanaeth

Mae Castell Care and Support yn asiantaeth gofal cartref sydd wedi'i lleoli yn y Ewloe. Mae'r asiantaeth wedi'i chofrestru gydag Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) i ddarparu gofal personol i oedolion yn eu cartrefi eu hunain ac mewn tŷ sy'n cael ei rannu sydd ag anghenion yn ymwneud ag anableddau corfforol, nam ar y synhwyrau, anableddau dysgu, problemau iechyd meddwl a dementia.

Yr unigolyn cyfrifol yw Luke Reeves. Nid oes rheolwr cofrestredig wedi bod ar waith ers 8 Mai 2017. Penodwyd rheolwr sy'n gweithio tuag at ennill y cymhwyster sy'n angenrheidiol i gofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru, Cyngor Gofal Cymru ac AGGCC.

Pa fath o arolygiad a gynhaliwyd?

Arolygiad sylfaenol oedd hwn a gynhaliwyd fel rhan o'n rhaglen arolygu. Gwnaethom ni (AGGCC) gynnal ymweliad dirybudd â swyddfa'r asiantaeth ar 16 Tachwedd 2017 rhwng 9.40am a 4.25pm ac ar 17 Tachwedd 2017 rhwng 1pm a 2.30pm.

Defnyddiwyd y dulliau canlynol:

- Gwnaethom siarad â thri o bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth dros y ffôn.
- Gwnaethom ymweld â thŷ sy'n cael ei rannu ar 17 Tachwedd rhwng 9am a 12.15pm.
- Gwnaethom siarad â phedwar aelod o staff, yr unigolyn cyfrifol, y rheolwr cymorth busnes a rheolwr tŷ.
- Gwnaethom ddsbarthu holiaduron yn gofyn i bobl sy'n derbyn gwasanaeth, perthnasau/cynrychiolwyr, staff a gweithwyr proffesiynol roi sylwadau ar eu profiad o'r gwasanaeth. Cafodd 22 holiadur eu dychwelyd.
- Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion a dogfennau mewn perthynas â gweithrediad a rheolaeth y gwasanaeth.
- Gwnaethom edrych ar gynlluniau gofal a chofnodion yn ymwneud â chwech o bobl sy'n derbyn y gwasanaeth ac ar ffeiliau pedwar aelod o staff.

Beth mae'r gwasanaeth yn ei wneud yn dda?

Mae pobl yn cael cymorth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac mae ganddynt fewnbwn gan staff sydd wedi'u hyfforddi'n dda ac sy'n llawn cymhelliant, sy'n galluogi'r bobl sy'n derbyn cymorth i barhau i fyw yn eu cartrefi eu hunain.

Beth sydd wedi gwella ers yr arolygiad diwethaf?

Nid oedd unrhyw argymhellion o'r arolygiad diwethaf.

Beth mae angen ei wneud i wella'r gwasanaeth?

Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd yn yr arolygiad hwn?

- Rydym wedi hysbysu'r personau cofrestredig fod rhaid iddynt benodi rheolwr sydd â'r cymwysterau angenrheidiol (Rheoliad 9 o Reoliadau Asiantaethau Gofal Cartref (Cymru) 2004), er mwyn bodloni'r gofynion cyfreithiol yn llawn. Ni roddwyd hysbysiad ar yr achlysur hwn, gan nad oedd unrhyw effaith uniongyrchol na sylweddol ar bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ac am fod yr unigolyn cyfrifol wedi recriwtio ar gyfer y swydd hon a bod staff ar hyn o bryd yn cwblhau cymwysterau priodol.

Rydym yn disgwyl i'r personau cofrestredig gymryd camau i ddatrys hyn a bydd yn derbyn sylw yn yr arolygiad nesaf.

Rydym wedi nodi'r meysydd i'w gwella canlynol y dylai'r personau cofrestredig eu hystyried i ddatblygu'r gwasanaeth ymhellach:

- Safon Ofynnol Genedlaethol 4 mewn perthynas â chynlluniau cyflwyno gwasanaeth. Dylai'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth neu eu cynrychiolwyr yn llofnodi cynlluniau cyflwyno gwasanaeth a gwaith papur perthnasol arall fel tystiolaeth fod pobl wedi cyfrannu at sut maent yn derbyn eu gofal.
- Dylid cynnal a chofnodi hapwiriadau'n rheolaidd.
- Dylid cynnwys proffil unigolyn un dudalen ar ddechrau cynllun cymorth pob unigolyn.
- Dylid cynnal archwiliad o gwympiadau a'i ychwanegu at y polisi cwympiadau.
- O fewn y polisi meddyginiaeth, dylid nodi y bydd staff yn ail-wneud hyfforddiant meddyginiaeth ar ôl i wall meddyginiaeth ddigwydd, ac ni ddylid caniatáu iddynt roi meddyginiaeth hyd nes caiff y broses ailhyfforddi hon ei chyflawni'n llwyddiannus.

Ansawdd Bywyd

I grynhoi, canfuom fod pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth yn cael eu cefnogi i fyw eu bywydau mor annibynnol â phosib. Gwelsom fod pobl ag anghenion cymhleth yn derbyn gofal priodol, ymatebol gan staff oedd â dealltwriaeth o'u hanghenion. Ymgynghorwyd â phobl yn rheolaidd ynglŷn â'r gofal yr oeddent yn ei dderbyn a chafodd hyn ei adolygu gyda nhw'n rheolaidd. Roedd anghenion gofal a chynlluniau cymorth yn cael eu hasesu mewn modd sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac roedd yr asesiadau'n dangos mewn manylder pa ofal a chymorth oedd eu hangen a sut yr oedd pobl am i'w gofal gael ei ddarparu.

Mae gan bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ddewis a dylanwad ynglŷn â sut mae eu gofal yn cael ei ddarparu. Mae hyn oherwydd eu bod nhw neu eu cynrychiolwyr, lle bo'n briodol, yn cymryd rhan yng nghynllunio eu gofal. Buom yn siarad â phobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, yn derbyn holiaduron ac yn gweld ffeiliau oedd yn dangos bod ymweliadau cyn-asesiad yn cael eu cynnal gan staff cyn i bobl ddefnyddio'r gwasanaeth. Gwnaethom edrych ar ffeiliau a dywedwyd wrthym gan staff uwch mewn perthynas â'r tŷ cymunedol fod gweithdrefn cyn-asesiad fanwl iawn, ble mae gweithwyr proffesiynol a phobl sydd ar fin defnyddio'r gwasanaeth yn ymweld â'r tŷ ar sawl achlysur i gwrdd â staff a phobl eraill sy'n byw yno i sicrhau bod yr unigolyn sy'n symud i mewn yn gwybod beth i'w ddisgwyl a bod staff yn ymwybodol o'i anghenion a'i ofynion. Mae'r arferion hyn yn golygu bod cynlluniau cymorth sydd wedi'u seilio ar ofal a chanlyniadau ar waith cyn i bobl symud i mewn. Gwelsom ffeiliau chwech o bobl oedd yn dangos bod y cynlluniau cymorth yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. O'r 11 holiadur a dderbyniwyd gan bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, dywedodd saith o bobl wrthym fod eu gofal a chymorth yn cael eu hadolygu o leiaf bob deuddeg mis, ac nid oedd pedwar o bobl yn gwybod pryd roedd eu cymorth yn cael ei adolygu. Er inni weld canlyniadau'n cael eu hadolygu rhwng staff a phobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth yn rheolaidd, nid oedd unrhyw lofnodion ar unrhyw un o'r ffeiliau'n dangos bod pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth wedi cyfrannu at y ddogfen hon. Gwnaethom hysbysu'r unigolyn cyfrifol o hyn a gwnaeth ein sicrhau y byddai'n cael ei gywiro yn y dyfodol o ran copïau papur ac electronig.

Mae pobl ag anghenion cymhleth yn derbyn gofal priodol, ymatebol gan weithwyr gofal sydd â dealltwriaeth gyfredol o'u hanghenion a'u hoffterau. Mae hyn oherwydd bod gan bob unigolyn gynllun cymorth sy'n nodi'r gofal sydd ei angen. Mae Castell Care and Support wrthi'n trosglwyddo eu holl gynlluniau cymorth i system gyfrifiadurol ac ar hyn o bryd yn rhedeg dwy system gofnodi, un ar y system gyfrifiadurol ac un ar bapur, a gwelsom eu bod yn adlewyrchu ei gilydd yn union. Unwaith bydd y system gyfrifiadurol yn gwbl weithredol, bydd y ffeiliau papur yn cael eu harchifo. Gwelsom nodiadau dydd a gwnaethom siarad â staff a wnaeth gadarnhau bod y gofal a'r cymorth angenrheidiol yn cael eu gweithredu. Roedd y chwe cynllun cymorth y gwnaethom eu gweld yn fanwl, gan roi gwybodaeth am yr unigolyn, pa gymorth oedd ei angen, sut i roi cymorth i'r unigolyn, a sut oedd yn hoffi a ddim yn hoffi i'w ofal a'i gymorth cael eu ddarparu. Roedd gan y cynlluniau cymorth canlyniadau ar gyfer yr holl gymorth a roddwyd a manylwyd sut yr oedd - ac y byddai - y canlyniadau hyn yn cael eu cyflawni. Roedd asesiadau risg manwl a, lle bo angen, cynlluniau arbenigol ar waith megis symud a thrin. Er bod pob cynllun wedi'i bersonoli ac yn rhoi synnwyr o'r unigolyn sy'n cael ei gefnogi, roedd cymaint o wybodaeth bersonol fel ein bod yn teimlo y byddai staff a'r unigolyn sy'n derbyn cymorth yn elwa o broffil cryno, un dudalen, wedi'i leoli ar flaen y ffeil fel y gallai

staff gael dealltwriaeth o'r unigolyn yr oeddent yn rhoi cymorth iddo yn gyflym. Gwnaethom gynghori'r unigolyn cyfrifol fod angen hyn yn y ffeiliau papur a'r system gyfrifiadurol a chytunodd y byddai hyn yn cael ei weithredu.

Mae pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth yn derbyn cymorth sy'n gyson. Gwelsom y rotas staff, a oedd yn cadarnhau bod pobl yn derbyn cymorth gan dîm staff craidd. O'r chwe holiadur a gafodd eu derbyn gan berthnasau, roedd pump yn teimlo bod eu perthnasau'n derbyn gofal sy'n gyson ac nid oedd un yn gwybod. O'r 11 holiadur a gafodd eu derbyn gan bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, dywedodd deg wrthym eu bod wedi derbyn yr un gofalwyr drwy'r amser a dywedodd un unigolyn nad oedd hyn yn wir yn ei achos ef. Dywedodd pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ac aelodau staff wrthym fod digon o amser wedi'i ddyrannu i'r staff ymgymryd â'u tasgau a gwnaethant gadarnhau, pe ofynnwyd am dasgau ychwanegol, y byddai staff yn gwneud eu gorau i'w gwneud yn yr amser a neilltuwyd.

Ansawdd Staffio

Yn gyffredinol, canfuom fod pobl yn derbyn gofal dibynadwy. Mae staff sy'n gweithio i'r asiantaeth yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan eu rheolwyr llinell. Roedd staff yn teimlo eu bod wedi derbyn hyfforddiant priodol; roedd rhaglen barhaus o hyfforddiant a goruchwyliaeth ac roedd gweithwyr gofal newydd yn cael eu hymsefydlu yn eu rôl.

Mae pobl yn derbyn cymorth a gofal amserol. Dywedwyd wrthym gan uwch aelod o staff nad oedd pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth yn derbyn rota, er bod un ar gael ar-lein. Roedd pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth yn dweud wrthym nad oedd gweithwyr gofal byth yn hwyr ac, o'r 11 o holiaduron a gafodd eu dychwelyd, nid oedd ond un a ddywedodd fod gweithwyr gofal wedi colli ymweliad, er mai dim ond ar un achlysur oedd hyn wedi digwydd. Dywedodd pobl wrthym hefyd fod gweithwyr gofal yn aros am yr amser a neilltuwyd ar eu cyfer ac nad oeddent yn rhuthro wrth ddarparu gofal. Cadarnhaodd gweithwyr gofal a phobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth eu bod wedi cael digon o amser i gwblhau eu hymweliadau'n drylwyr ac, os gofynnir amdanynt, byddai staff yn ceisio gwneud tasgau ychwanegol yn yr amser a roddwyd iddynt.

Mae pobl yn derbyn gofal gan staff sy'n derbyn hyfforddiant a goruchwyliaeth i'w cefnogi yn eu swyddogaeth. Mae hyn oherwydd bod gan yr asiantaeth raglen hyfforddiant sefydlu drylwyr a rhaglen hyfforddi staff parhaus. Gwelsom dystiolaeth o hyn wrth edrych ar gofnodion, yn yr ymatebion i'r holiadur, ac yn ystod trafodaethau gyda gweithwyr gofal. Enghreifftiau o'r hyfforddiant a ddarparwyd oedd diogelu, meddyginiaeth, datrys gwrthdaro, pasbort trin pobl Cymru gyfan, atal a rheoli heintiau, cymorth cyntaf brys, iechyd a diogelwch, a diogelwch bwyd. Roedd gan ganran is na'r disgwyl o weithwyr gofal gymhwyster mewn gofal: roedd 23% wedi ennill cymhwyster Lefel 2 neu uwch mewn gofal, sy'n is na'r isafswm o 50% a argymhellir gan y Safonau Gofynnol Cenedlaethol. Mae'n rhaid rhoi sylw i'r mater hwn. Roeddem yn gallu cadarnhau trwy drafodaethau gyda staff gofal a thrwy edrych ar gofnodion fod staff gofal yn derbyn goruchwyliaeth, arfarniadau a chyfarfodydd tîm rheolaidd. Roedd gwiriadau i asesu addasrwydd unigolyn i weithio i'r asiantaeth yn cael eu gwneud wrth recriwtio ac roedd gweithdrefn sefydlu gynhwysfawr yn cael ei chwblhau.

Mae pobl yn profi rhyngweithio da gyda staff. Dywedodd naw o'r 11 o holiaduron a ddychwelwyd gan bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth fod staff gofal yn gwneud eu gwaith yn dda, tra oedd dau o bobl yn ein hysbysu bod y gofal yr oeddent yn ei dderbyn yn iawn. Ysgrifennodd un unigolyn ei fod yn teimlo bod y cymorth yr oedd yn ei dderbyn yn "*ardderchog*" a rhoddodd rhywun "*ddeg allan o ddeg*" iddo.

Ansawdd Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Yn gyffredinol, mae pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, sy'n gweithio yn y gwasanaeth, neu sy'n gysylltiedig â'r gwasanaeth yn eglur ynghylch yr hyn y mae'n mynd ati i'w ddarparu. Mae datganiad o ddiben a chanllaw i ddefnyddwyr gwasanaeth ar wahân sy'n nodi amcanion y gwasanaeth, a'r hyn y gall bobl ei ddisgwyl. Mae datganiad o ddiben newydd sydd ar ffurf ddrafft ar hyn o bryd. Mae'r ddogfen yn amlinellu strwythur rheoli'r sefydliad, athroniaeth y gofal, diwallu anghenion pobl, y cymorth sydd ar gael, a sut y gall pobl gael eu cynnwys trwy welliant ansawdd parhaus. Mae'r ddogfen hefyd yn rhoi gwarant fod gan bobl yr hawl i dderbyn cyfathrebiadau yn Gymraeg fel eu hiaith gyntaf.

Mae pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth yn cymryd rhan mewn mesur ansawdd y gwasanaeth oherwydd gofynnir iddynt am eu barn am ansawdd y gofal a'r gwasanaethau a ddarperir. Cafodd hyn ei gyflawni trwy holiaduron a anfonwyd at bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Mae canfyddiadau'r arolygon hyn yn ffurfio rhan o broses sicrhau ansawdd ehangach y mae ei chanlyniadau'n cael eu cyfathrebu i bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth drwy anfon dogfen gryno o'r canfyddiadau atynt. Dyma'r ddogfen sicrhau ansawdd gyntaf sydd wedi'i chynhyrchu gan yr asiantaeth ac ar hyn o bryd mae'n aros i gael ei chymeradwyo gan ei bwrdd. Bydd wedyn yn cael ei hanfon at bawb sy'n defnyddio'r gwasanaeth a bydd ar gael ar ei gwefan. Gwelsom fod y broses sicrhau ansawdd y mae'r asiantaeth yn ymgymryd â hi'n drylwyr, er ein bod yn teimlo bod angen i'r asiantaeth hefyd ystyried deddfwriaeth newydd wrth ymgymryd â'i hadroddiad sicrhau ansawdd yn y dyfodol. Dywedodd uwch reolwyr wrthym eu bod yn sicrhau bod y gwasanaeth a ddarperir gan staff gofal o safon dderbyniol trwy gynnal hapwiriadau rheolaidd o weithwyr gofal wrth iddynt ymgymryd â'u gwaith yng nghartrefi pobl; fodd bynnag, nid oedd unrhyw ddogfennaeth yn cael ei chadw ar hyn o bryd o ran yr hapwiriadau hyn. Cafodd hyn ei grybwyll i'r unigolyn cyfrifol, a wnaeth ein sicrhau y byddai dogfennau'n cael eu rhoi ar waith.

Mae pobl yn gwybod bod tîm rheoli sy'n goruchwyllo'r gwasanaeth y maent yn ei dderbyn gan fod y datganiad o ddiben yn dangos strwythur rheoli'r sefydliad. Gwnaethom edrych ar ffeiliau pedwar o weithwyr gofal a gwnaethom nodi bod prosesau recriwtio'n gadarn a bod gwiriadau diogelwch priodol wedi'u cynnal. Yn gyffredinol, dywedodd gweithwyr gofal wrthym mewn cyfweiliadau a thrwy holiaduron a dderbyniwyd eu bod yn teimlo'u bod yn derbyn cefnogaeth dda a bod ganddynt oruchwyliaeth reolaidd a gwerthusiadau blynyddol. Gwelsom lawlyfr y staff, a oedd yn dangos bod yr asiantaeth yn rhoi pwyslais ar ddatblygiad staff ac yn sicrhau bod yr holl staff yn ymwybodol o'u swyddogaeth a'u cyfrifoldebau. Roedd pobl yn gwybod sut i fynegi pryder neu gŵyn a gwelsom dystiolaeth o ddwy gŵyn a sut yr ymdriniwyd â nhw'n gyflym trwy drefn gwyno'r asiantaeth. Gwelsom fod ystod lawn o bolisiau a gweithdrefnau gweithredol ar waith i gefnogi ymarfer, a oedd yn cynnwys cwynion, meddyginiaeth, cwmpo a diogelu. Roeddem yn teimlo y byddai'r polisi meddyginiaeth yn elwa o eglurder o ran canlyniadau yn dilyn camgymeriadau gan weithwyr gofal ac y byddai'r polisi cwmpo iadau yn elwa o adran archwilio cwmpo iadau. Cytunodd yr unigolyn cyfrifol y byddai'r ychwanegiadau hyn yn cael eu gweithredu.

Ansawdd yr Amgylchedd

Nid yw'r thema hon yn berthnasol i asiantaethau gofal cartref.

Sut rydym yn arolygu gwasanaethau ac yn hysbysu am y canlyniadau

Rydym yn cynnal dau fath o arolygiad: sylfaenol a phwyslais penodol. Mae'r ddau yn ystyried profiad y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau.

- Mae **arolygiadau sylfaenol** yn asesu a oes cyfiawnhad dros gofrestrriad gwasanaeth ac a yw amodau'r cofrestrriad yn briodol. Ar gyfer mwyafrif y gwasanaethau, rydym yn cynnal yr arolygiadau hyn bob tair blynedd. Mae gwarchodwyr plant cofrestredig, gofal y tu allan i'r ysgol, gofal sesiynol, meithrinfeydd a darpariaethau mynediad agored, ar y llaw arall, yn derbyn arolygiad bob pedair blynedd.

Ar adeg yr arolygiadau hyn, byddwn yn sicrhau bod gan y gwasanaeth ddatganiad o ddiben eglur ac effeithiol a bod y gwasanaeth yn cyflawni'r ymrwymadau a nodir yn ei ddatganiad o ddiben. Wrth asesu p'un a oes cyfiawnhad dros gofrestrriad, mae arolygwyr yn sicrhau bod y gwasanaeth yn gallu dangos hanes o gydymffurfio â'r rheoliadau.

- Bydd **arolygiadau sydd â phwyslais penodol** yn ystyried profiad y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau a byddwn yn edrych ar p'un a yw'r lleoliad yn cydymffurfio â'r rheoliadau pan nodir canlyniadau gwael ar gyfer y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau. Rydym yn cynnal yr arolygiadau hyn rhwng arolygiadau sylfaenol. Bydd arolygiadau sydd â phwyslais penodol bob amser yn ystyried ansawdd bywyd y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau a byddant o bosibl yn edrych ar feysydd eraill.

Gellid trefnu arolygiadau sylfaenol a rhai sydd â phwyslais penodol fel rhan o'r amserlen, neu eu cynnal mewn ymateb i bryderon.

Mae arolygwyr yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau i gasglu gwybodaeth yn ystod arolygiadau. Gallai'r rhain gynnwys:

- Siarad â phobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau a'u cynrychiolwyr
- Siarad â'r staff a'r rheolwr
- Edrych ar ddogfennau
- Arsylwi ar yr amgylchedd a'r rhyngweithio rhwng y staff a'r bobl
- Edrych ar sylwadau a wnaed mewn holiaduron a ddychwelwyd gan bobl sy'n defnyddio gwasanaethau, y staff, a gweithwyr proffesiynol iechyd a gofal cymdeithasol

Rydym yn arolygu ac yn nodi ein canfyddiadau dan 'Themâu Ansawdd'. Cyfeirir at y rhai hynny sy'n berthnasol i bob math o wasanaeth yn ein hadroddiadau arolygu.

Ceir gwybodaeth bellach am yr hyn yr ydym yn ei wneud yn ein taflen 'Gwella Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru'. Gallwch lawrlwytho hon o'n gwefan, [Gwella Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru](#), neu gallwch ffonio eich swyddfa ranbarthol AGGCC leol i ofyn i ni anfon copi atoch.

